

## Cofnodion y Cyngor – cyfarfod 169

---

Dyddiad y cyfarfod:	Dydd Gwener 8 Chwefror 2019.
Lleoliad:	Cyngor Celfyddydau Cymru, Plas Bute, Caerdydd
Yn bresennol:	Phil George (PG) Cadeirydd, Andy Eagle (AE), Dafydd Rhys (DR), Richie Turner (RT), Iwan Bala (IB), Kate Eden (KE), Melanie Hawthorne (MH), Andrew Miller (AM) ac Alan Watkin (AW),
Yno:	Nick Capaldi (NC), Gwyn Williams (GW), Kath Davies (KD), Diane Hebb (DH), Sian Tomos (ST), Angela Thomas (AT), Siôn Brynach (SB) a Katy Brown (KB) – yn cymryd cofnodion.
Ymddiheuriadau:	John Williams (JW), Mike Griffiths (MG), Marian Wyn Jones (MWJ) a Rachel O’Riordan (ROR).
Sylwedydd:	Andrew Stevenson (AS).
Cyfieithu:	Dafydd Frayling (DF)
Cyflwyniad:	
Statws y ddogfen:	I’w chyhoeddi.

---

		Cam gweithredu
1.	<b>Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau</b> Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i’r cyfarfod.  <u>Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau</u> Dywedodd PG wrth yr aelodau y cynhelir dathliad wythnos o hyd o raglen Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau ar draws lleoliadau ym Mae Caerdydd o 2 i 6 Ebrill. Byddai mwy o wybodaeth ar gael yn nes at yr adeg honno.	

---

**2. Datganiadau o Fuddiant (i'w nodi)**

Gofynnodd aelodau o'r Cyngor am i Ddatganiadau o Fuddiant gael eu cofnodi yn y cofnodion (wedi'u hamgáu fel atodiad i'r cofnodion hyn).

MH – bod cyflogaeth gydag Oxfam wedi cael ei hychwanegu.

AM – i Opera Cenedlaethol Cymru gael ei ychwanegu.

IB – i Butetown Artists gael ei ychwanegu.

**3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Hydref 2018**

Yn y cyfarfod o'r Cyngor ym mis Rhagfyr gwnaethpwyd cywiriad i'r cofnodion ynghylch y weithdrefn ar gyfer adfer arian y Loteri sydd heb ei ddefnyddio. Yn anffodus, nid oedd y cofnod yn cyfeirio'n benodol at arian Cyfalaf. Felly gofynnodd swyddogion am gymeradwyaeth y Cyngor i gywiro cofnod cyfarfod mis Hydref o'r Cyngor gyda'r geiriad canlynol:

“Y confensiwn blaenorol oedd y câi arian oedd heb ei neilltuo yn y dyraniad Cyfalaf cyffredinol ei 'adfer' i gyllideb gyffredinol y Loteri ac y cytunwyd ar geisiadau unigol i adfer i'r gyllideb cyfalaf fesul achos unigol. Er mwyn caniatáu defnyddio cronfeydd Cyfalaf yn y modd gorau, gofynnwyd am i'r rhain gael eu hadfer yn awtomatig i'r gyllideb Cyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19 ymlaen.”

**Cymeradwyodd** y Cyngor yr argymhelliad.

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2018**

**Cymeradwywyd** Cofnodion y cyfarfod fel cofnod cywir o'r cyfarfod, yn amodol ar y diwygiadau canlynol:

National Theatre Wales

Mewn gwirionedd yr oedd KD, RT a PG yn bresennol yn y cyfarfod.

**Cytunwyd** ar newidiadau i'r adrannau canlynol fel y nodir isod.

Cyfarfod Cydraddoldeb Cenedlaethol

Cadeiriodd AM ford gron ar ran y Gweinidog dros Bobl Anabl yn yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Gweinidog dros y Celfyddydau yn yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn San Steffan. Yn y cyfarfod dygwyd ynghyd 4 cyngor celfyddydau'r Deyrnas Unedig, Cronfa Treftadaeth y Loteri a'r British Film Institute i wella cyfleoedd i bobl anabl yn y celfyddydau ar draws hyfforddiant, cyflogaeth a phrofiad cynulleidfaoedd. O ganlyniad i'r cyfarfod hwn, mae ACE wedi comisiynu astudiaeth dichonoldeb i edrych ar gyflwyno cynllun Hynt, a ariannwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru, ledled y Deyrnas Unedig. Cynhelir cyfarfod dilynol yn yr haf.

<p><u>Cofnodion y Pwyllgor Archwilio</u> Roedd yr aelodau wedi mwynhau'r daith o gwmpas adeilad Opera Cenedlaethol Cymru, gan wyllo rhan o'r ymarfer gwisgoedd ar gyfer "La Cenerentola" gan Rossini a chan feithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r gwaith allestyn ac ymgysylltu â chymunedau mae Opera Cenedlaethol Cymru'n ei wneud.</p>	
<p><b>4. Materion yn codi</b> <u>Recriwtio i'r Cyngor</u> Rhoddodd PG ddiweddariad i'r aelodau am y cyfweiliadau a gynhaliwyd ar 2 a 3 Chwefror 2019. Roedd yn falch i gyhoeddi bod y broses eisoes wedi canfod chwe ymgeisydd cryf. Câi argymhellion terfynol eu hanfon at y Dirprwy Weinidog. Ar ôl cytuno ar y penodiadau, roedd yr ymgeiswyr yn debyg o gael clywed ym mis Mawrth.</p> <p><u>Gwahoddiadau i ddigwyddiadau i aelodau o'r Cyngor</u> Mae KD wedi annog Swyddogion Datblygu i siarad â chleientiaid am wahodd aelodau o'r Cyngor i weithgareddau yn y dyfodol.</p> <p><u>Strategaeth ryngwladol</u> Cadarnhawyd bod y Strategaeth Ryngwladol wedi cael ei lansio.</p>	
<p><b>5. Cofnodion Pwyllgorau</b> <b>5.1 Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg – cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2019</b> Rhoddodd KE adroddiad i'r aelodau ar y busnes a gyflawnwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor yn ddiweddar.</p> <p><u>Adroddiadau archwilio mewnol</u> Tynnodd sylw at bum archwiliad mewnol a gyflawnwyd gan Deloitte – Rheolaethau Cyffredinol Technoleg Gwybodaeth, Arian Grant, Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, Cynllunio Strategol a Pherfformiad y Sefydliad (a gafodd ddyfarniad o "sicrwydd sylweddol") ac Adnoddau Dynol ("sicrwydd cymedrol").</p> <p><u>Adroddiad Radar</u> Roedd y Pwyllgor yn dal i adolygu Adroddiad Radar yn fanwl.</p> <p><u>Hunanasesiad y Pwyllgor</u> Roedd y Pwyllgor wedi cyflawni hunanasesiad llawn o'i berfformiad. Byddai hyn yn cyfrannu at ddatganiadau Llywodraethu blynyddol.</p> <p><b>Nododd y Cyngor y cofnodion.</b></p>	

## 5.2 Grŵp Monitro Cenedlaethau'r Dyfodol – cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2019

Rhoddodd MH adroddiad i'r aelodau ar y busnes a gyflawnwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor yn ddiweddar.

Aeth ST i weithdy a gynhaliwyd ac a drefnwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ar 31 Ionawr ynghyd ag uwch gydweithwyr eraill.

Canolbwyntiodd y gweithdy ar ddatblygu strategaeth gorfforaethol Cyngor y Celfyddydau a sut yr oedd "pum ffordd o weithio" llesiant wedi dylanwadu ar hyn. Rhoddwyd prawf ar hyn trwy broses o drafod a dadansoddi.

### Creu Cymunedau Cyfoes

Dywedodd ST bod yr adroddiad gwerthuso yr oedd Cyngor y Celfyddydau wedi'i gomisiynu oddi wrth Wavehill heb gael ei gymeradwyo eto. Roedd angen rhagor o waith ar rai o'r setiau data.

Cyflwynir yr adroddiad i'r Cyngor ar ôl iddo gael ei gymeradwyo.

**Nododd y Cyngor y cofnodion.**

## 6. Adroddiad y Cadeirydd

6.1 Yn yr adroddiad cafwyd gwybodaeth am y digwyddiadau, cyfarfodydd neu berfformiadau yr aeth y Cadeirydd iddynt yn ddiweddar.

## 6.2 Penodiadau i Bwyllgorau

Yn ddiweddar dywedwyd wrth y Cyngor y gofynnwyd am geisiadau am 3 Aelod Annibynnol, un i bob un o'r Pwyllgorau / Grwpiau adrodd canlynol:

- Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
- Y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol
- Y Grŵp Monitro Cydraddoldeb

Yn dilyn ymgyrch recriwtio lwyddiannus ym mis Rhagfyr, cynigir y penodiadau canlynol i'r Cyngor eu cymeradwyo:

- Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg - **Dr Elid Morris**
- Y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol - **Valerie Ellis** (oedd yn Aelod cyfetholedig gynt)
- Y Grŵp Monitro Cydraddoldeb - **Guto Gwilym**

Yn amodol ar gymeradwyaeth ffurfiol y Cyngor, bydd cyfnod pob Aelod yn ei swydd yn dechrau ym mis Chwefror 2019 ac yn para am 3 blynedd (ar ôl hynny bydd cyfle i ystyried ei ailbenodi am gyfnod arall yn ei swydd).

Bydd neilltuo Aelodau i'n Pwyllgorau'n cael ei ystyried yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Mawrth.

<p>Cymeradwydd y Cyngor yr argymhellion.</p>	<p>PG</p>
<p><b>8. Busnes y Prif Weithredwr</b></p> <p><b>8.1</b> Rhoddodd NC adroddiad ar y digwyddiadau yr oedd wedi mynd iddynt yn ddiweddar.</p> <p><u>Y Comisiynydd Hapchwarae</u> Pwnc y cyfarfod oedd dyfodol y drwydded loteri nesaf. Mae'r Comisiynydd yn edrych ar loteriau eraill, yn arbennig rhai lleol.</p> <p><u>Pwyllgor Materion Tramor Senedd y DU</u> Cyfarfu'r Pwyllgor yn Aberdâr ac roedd NC wedi cyfrannu tystiolaeth fel rhan o drafodaeth y Pwyllgor. Roedd y cyfarfod yn canolbwyntio'n bennaf ar Brexit.</p> <p><u>National Theatre Wales</u> Roedd National Theatre Wales yn parhau â'i rhaglen o ymgysylltu â'r cyhoedd, gan geisio mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn gynharach yn y flwyddyn. Bwriedir cynnal 'cyfarfod agored' ar 3 Mawrth.</p> <p>Diolchodd PG i NC a'r staff am eu gwaith caled gyda National Theatre Wales.</p> <p><u>Cofiwch Dryweryn</u> Nododd IB y fandaliaeth ddiweddar i'r arwydd eiconig hwn a theimlai fod angen ei ddiogelu. Dywedodd NC mai mater i Cadw yw diogelu arteffactau'r dreftadaeth gyhoeddus a'i fod y tu allan i gylch gwaith Cyngor y Celfyddydau.</p> <p><u>64 Million Artists</u> Dywedodd DH fod y sefydliad 64 Million Artists wedi cael ei benodi i lunio adroddiad ar gynhwysiant, ymgysylltiad ac amrywiaeth yng Nghymru. Bydd y gweithgor mewnol ar ehangu ymgysylltiad yn edrych ar yr adroddiad yn ei gyfarfod nesaf.</p> <p><b>Nododd y Cyngor yr adroddiad.</b></p>	
<p><b>8.2 Ad-drefnu cyfrifoldebau'r Uwch Tîm Arwain</b> Gadawodd yr holl staff, ac eithrio'r Prif Weithredwr, yr ystafell yn ystod yr eitem hon.</p> <p>Dywedodd NC, gan fod dwy swydd yn wag yn ein Huwch Tîm Arwain, fod</p>	

---

adolygiad achos busnes wedi cael ei gyflawni i asesu'r opsiynau ar gyfer y dyfodol.

Edrychodd yr adolygiad ar bum cwestiwn:

1. Ai'r peth gorau i'w wneud yw recriwtio i'r swydd neu swyddi gwag fel y maent ar hyn o bryd?
2. A oes cyfle i leihau costau trwy ohirio'r broses recriwtio a chadw'r swydd neu swyddi'n wag?
3. A ddylem geisio sicrhau arbedion trwy ddileu swyddi gwag o'n strwythur staff?
4. A oes dadl dros newid ffocws y swydd wag a/neu swyddi eraill yn y strwythur staffio?
5. Os cynigir newidiadau, a ydyn nhw'n ymarferol ac yn fforddiadwy?

Atgoffodd NC y Cyngor bod y pwysau i arbed costau yn ystyriaeth barhaus o hyd. Fodd bynnag, rhaid inni sicrhau ein hunain bod gennym y staff iawn i gyflawni'r dyletswyddau sy'n ofynnol inni, yn enwedig o ran Cyllid a'r Celfyddydau.

Ar ôl ystyried amrywiaeth o opsiynau, **cytunodd** y Cyngor:

1. Y byddwn yn troi'r swydd Cyfarwyddwr (Cyllid) sy'n rhan amser ar hyn o bryd yn swydd Cyfarwyddwr (Cyllid a Gwasanaethau Busnes) amser llawn unwaith eto.
2. Na fyddwn yn recriwtio neb i'r swydd Cyfarwyddwr (Celfyddydau), gan ddewis gweithredu gydag Uwch Tîm Arwain Illai (a rhatach).
3. O ganlyniad i 2 uchod, caiff cyfrifoldebau presennol y Cyfarwyddwyr eu had-drefnu rywfaint.
4. Bydd hyn yn golygu newid teitlau swydd presennol. Mae'r Cyngor wedi **cytuno** i'r newidiadau canlynol:
  - Cyfarwyddwr (Ymgysylltu ac Ymgyfranogi) i Gyfarwyddwr (Ymgysylltu yn y Celfyddydau)
  - Cyfarwyddwr (Menter ac Adfywio) i Gyfarwyddwr (Datblygu'r Celfyddydau)
  - Cyfarwyddwr (Gwasanaethau Buddsoddi ac Ariannu) i Gyfarwyddwr (Gwasanaethau Ariannu'r Celfyddydau)

Nododd y Cyngor y gallai cyfleoedd godi i gryfhau capasiti mewn rhannau eraill o'r strwythur staffio islaw lefel yr Uwch Tîm Arwain.

**Cytunodd** y Cyngor y dylid adolygu effeithiolrwydd y newidiadau hyn ymhen 12 mis.

### 8.3 Adolygiad Cyflogau

Dywedodd DH ein bod erbyn hyn yn bwrw ymlaen â'r argymhellion a gafwyd yn adroddiad Acas:

1. Adolygiad o'r holl ddisgrifiadau swyddi yn y sefydliad
2. Ymarfer gwerthuso swyddi llawn i asesu a gwerthuso'r holl swyddi yn y sefydliad gan ddefnyddio disgrifiadau swyddi cyfredol (o 1 uchod)
3. Sefydlu strwythur cyflogau addas i'r diben (wedi'i seilio ar ganlyniad 2 uchod)
4. Rhoi'r strwythur cyflogau newydd ar waith ar draws y sefydliad.

Roedd 1 ar y gweill, a byddai 2 yn dilyn cyn bo hir.

Nododd y Cyngor y pwysau y gallai Adolygiad Cyflogau eu rhoi ar y staff. Cafodd meddyliau aelodau'r Cyngor eu tawelu wrth glywed bod rheolwyr a chydweithwyr o'r undeb wedi ymrwmo i gydweithio i wneud y broses mor ddidrafferth ag y bo modd.

#### Cylch Cyflog

Rhoddodd NC ddiweddariad i'r Cyngor ar y trafodaethau ar y Cylch Cyflog oedd heb eu terfynu ar gyfer 2018/19. Roedd y Cyngor yn ymwybodol y cytunwyd ar godiad cyflog o 2% ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18 a bod y cytundeb hwn am un flwyddyn yn unig.

Dywedodd NC fod y sefyllfa ariannol yn dal i fod yn heriol. Safbwynt y Cyngor bob amser oedd y dylai dyfarniadau cyflog fod yn rhesymol ac yn fforddiadwy. Cydnabu'r Cyngor ymroddiad a gwaith caled y staff, ond heb ffynhonnell incwm ychwanegol yn yr arfaeth, nid oedd ganddo fawr o le i symud.

Roedd NC wedi dweud wrth yr undeb y teimlai na allai gynnig unrhyw godiadau eraill yn 2018/19. Nododd y Cyngor y byddai cydweithwyr o'r undeb yn ymateb maes o law.

**Nododd** y Cyngor yr adroddiad.

### 8.4 Arolwg Staff – Rhagfyr 2018

Cyflwynodd ST y ddogfen yn nodi canfyddiadau'r Arolwg Staff mwyaf diweddar. Cafodd y Cyngor ei galonogi wrth weld bod cynnydd yn cael ei wneud mewn nifer o feysydd. Fodd bynnag, roedd y Cyngor yn dal i bryderu am y meysydd hynny lle'r ymddangosai ei bod yn anos gwneud cynnydd.

Gofynnodd y Cyngor i'r Uwch Tîm Arwain ymdrechu'n galetach i fynd i'r afael â'r pryderon oedd heb eu datrys, a gofynnodd i'r Uwch Tîm Arwain

ST

	<p>ddod yn ôl gyda chynigion clir a datblygedig er mwyn ymateb i'r diffygion oedd yn weddill.</p> <p>Trafododd y Cyngor ba mor aml y dylem gynnal arolygon staff. Teimlwyd bod arolygon blynyddol yn iawn, ond yn y tymor byr gofynnodd y Cyngor am fwy o arolygon 'sydyn' yn edrych ar y meysydd oedd yn peri pryder penodol.</p> <p><b>Nododd</b> y Cyngor yr adroddiad.</p>	
<p><b>9.</b></p>	<p><b>Cynllun Gweithredol 2019/20</b></p> <p>Mae'r Cynllun Corfforaethol wedi cael ei rannu. O ganlyniad, mae'n ofynnol i'r Cyngor edrych yn fanylach ar y Cynllun Gweithredol. Mae angen ymagwedd wahanol. Mae'n rhaid i'r Cynllun Gweithredol fod yn ddarllenadwy yn allanol ac yn fewnol. Hefyd mae'n rhaid iddo adlewyrchu'r "5 ffordd o weithio".</p> <p>Bydd yr holl staff yn cymryd rhan yn ddiweddarach yn y mis mewn gweithdy a bydd hyn yn darparu gwaith paratoi ar gyfer y cyfarfod ym mis Mawrth.</p>	
<p><b>10.</b> <b>10.1</b></p>	<p><b>Portffolio Celfyddydol Cymru</b></p> <p><b>Trosolwg o'r Cynlluniau Busnes</b></p> <p>Fel rhan o'n cylch monitro blynyddol ar gyfer Portffolio Celfyddydol Cymru, mae'n ofynnol i bob sefydliad gyflwyno cynllun busnes tair blynedd. Caiff y cynlluniau hyn eu hadolygu'n fanwl gan y Swyddogion Arweiniol a'u trafod yn fewnol gan Grwpiau Datblygu Sector perthnasol.</p> <p>Caiff dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau ei gyflawni ar gyfer pob cynllun, a chytunir ar baragraff o grynodedb sy'n crisialu'r prif faterion o bwys. Mae'r Grwpiau hefyd yn 'edrych oddi uchod' ac yn cytuno ar drosolwg o bob sector, gan nodi themâu a heriau cyffredin.</p> <p>Mae swyddogion yn credu bod y crynodebau'n rhoi ciplun defnyddiol o'r Portffolio ac y byddan nhw'n rhoi i'r Cyngor drosolwg amserol o'r gweithgarwch ar draws yr holl sectorau.</p> <p>Diolchodd PG i'r Rheolwyr Prosiect a Swyddogion.</p> <p><b>Nododd</b> y Cyngor yr adroddiad.</p>	
<p><b>10.2</b></p>	<p><b>Adroddiad Radar</b></p> <p>Cyflwynodd KD yr Adroddiad Radar gan nodi'r sefydliadau yr oedd gwaith swyddogion yn canolbwyntio arnyn nhw'n benodol.</p>	



<p><b>Nododd</b> y Cyngor yr adroddiad.</p>	
<p><b>11. Brexit</b> <b>Asesiad Risg Brexit</b></p> <p><b>Nododd</b> y Cyngor gynnwys y ddogfen a’r rhifyn diweddaraf o Gofrestr Risgiau Brexit.</p>	
<p><b>12. Adroddiad y Cyfarwyddwyr</b></p> <p>Rhoddodd yr adroddiad gipluniau byr o’r gweithgarwch ar draws y sefydliad.</p> <p>Diolchodd y Cyngor i’r Cyfarwyddwyr am yr adroddiad.</p> <p>Cafodd ST a Sally Lewis eu llongyfarch gan AW ar y cynnydd da sy’n cael ei wneud gyda phartneriaethau Byrddau Iechyd.</p> <p>Cafodd Hijinx ei longyfarch am ennill gwobr ryngwladol “The Stage”.</p> <p><b>Nododd</b> y Cyngor yr adroddiad.</p> <p><b>12. Adroddiadau ariannol</b></p> <p><b>12.1 Adroddiad cyllid hyd 31 Rhagfyr 2018</b></p> <p>Cyflwynodd NC yr adroddiad i’r Cyngor. Nododd ei fod yn rhoi trosolwg lefel uchel o’r incwm a gwariant hyd ddiwedd mis Rhagfyr 2018. Wrth roi ei sylwadau tynnodd sylw at faterion yr oedd angen eu trafod a gweithredu arnynt.</p> <p>Dangosodd y rhagolwg blwyddyn lawn ein bod yn debyg o ddod i ddiwedd y flwyddyn gyda balans arian parod uwchben y meincnod sef 4%. Tynnodd NC sylw at gysoni bras Adran 5. Os oes angen cario arian ymlaen, bydd angen cyflwyno achos busnes i Lywodraeth Cymru.</p> <p>Gwnaeth yr adroddiad argymhellion penodol ar gyfer trosglwyddo arian y Loteri. Yn wyneb problemau amseru, nid oedd rhai cyllidebau wedi cael eu neilltuo’n llawn eto, ac roedd eraill yn cael trafferth i ateb y galw posibl. Cytunodd y Cyngor nad oedd yn ddymunol gwrthod ceisiadau da a haeddiannol os oedd y capasiti yno i’w cefnogi.</p> <p>Hefyd trafododd y Cyngor y trefniadau bancio presennol gyda Santander UK plc, gan nodi eu bod yn bodoli ers 1 Ebrill 2016. Atgoffodd NC y Cyngor bod Santander wedi cael ei benodi, o dan delerau’r dyfarniad, yn</p>	

dilyn proses gaffael lawn, fel ein bancwyr am dair blynedd, gydag opsiwn i estyn y penodiad am ddwy flynedd arall. Dywedodd NC ein bod wedi cyflawni adolygiad o'r gwasanaeth, wrth inni ddod at ddiwedd y tair blynedd. Ni chafwyd unrhyw broblemau arwyddocaol ac roedd swyddogion yn argymhell estyn penodiad Santander am ddwy flynedd arall hyd 31 Mawrth 2021.

I gloi, **cytunodd** y Cyngor i:

1. **Nodi'r** sefyllfa ariannol;
2. **Nodi'r** materion sy'n codi, yn arbennig y rhagolygon gwariant presennol;
3. **Cymeradwyo** trosglwyddiadau arfaethedig arian y Loteri (adran 7 o'r ddogfen); a
4. **Chymeradwyo** estyn cyfnod penodiad bancwyr presennol Cyngor Celfyddydau Cymru (adran 10 o'r ddogfen).

**Nododd** y Cyngor yr adroddiad.

## 12.2 **Argymhelliad ariannu: cARTrefu Cymru**

AGE Cymru yw'r elusen genedlaethol fwyaf blaenllaw i bobl hŷn yng Nghymru. Yn 2015 dechreuasom bartneriaeth â Sefydliad Baring i gydariannu Age Cymru i ddarparu rhaglen fawr 'Celfyddydau mewn Cartrefi Gofal' ar draws Cymru. Cyflawnwyd cam cyntaf y rhaglen dros gyfnod o ddwy flynedd a hanner hyd fis Ebrill 2017. Golygai fod artistiaid wedi'u mentora yn cyflawni preswyladau mewn cartrefi gofal ac yn hyfforddi staff cartrefi gofal i ddeall gwerth cymryd rhan mewn gweithgarwch ym maes celfyddydau creadigol.

Yng ngham cyntaf y prosiect darparwyd bron 2,000 o oriau o weithgareddau mewn nifer o ffurfiau celf i fwy na 1,500 o breswylwyr mewn 122 o gartrefi gofal. Mae hyn yn cyfateb i bron 20% o'r cartrefi gofal yng Nghymru. Nododd yr adroddiad gwerthuso y profiadau celfyddydol trawsnewidiol o ansawdd da y manteisiodd y bobl hŷn arnynt.

Gan adeiladu ar lwyddiant y cam cyntaf, cytunodd y Cyngor i gefnogi ail gam o'r prosiect, unwaith eto mewn partneriaeth â Sefydliad Baring.

Dechreuodd hwn yn 2017 ac mae i fod i ddod i ben ym mis Mawrth 2019.

**Cymeradwyodd** y Cyngor yr argymhelliad ariannu fel y'i nodwyd yn y ddogfen

**13.3 Cais am flaensymiau o arian Cyngor Celfyddydau Cymru:  
Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru a Chapter**

**Cais am flaensymiau o arian Cyngor Celfyddydau Cymru**

Gadawodd Andy Eagle yr ystafell yn ystod yr eitem hon.

Dywedodd AR wrth y Cyngor fod dau o sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru wedi gofyn am flaensymiau o ran o'u harian blynyddol ar gyfer 2019/20.

Gofynnodd Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru am £60,000 a gofynnodd Chapter am £164,348 i'w cynorthwyo i reoli problemau tymor byr gyda llif arian.

Gwneir ceisiadau am flaensymiau o grantiau ar sail achos busnes a adolygir gan yr Uwch Tîm Arwain. Mae hyn yn cynnwys craffu ar sgôr risg bresennol y sefydliad (fel y'i nodir yn adroddiad Radar Portffolio Celfyddydol Cymru), sail y cais, ei ddiben a'r goblygiadau ariannol yn y tymor canolig. Cadarnhaodd AR ein bod wedi dilyn y broses hon gyda'r ddau gais hyn.

**Cymeradwyodd** y Cyngor y ddau flaenswm canlynol o arian referniw 2019/20 fel a ganlyn:

1. Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru - £60,000
2. Chapter - £164,348

**14.1 Y Fframwaith Sicrwydd Corfforaethol a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol**

Mae'r meysydd ar gyfer pob amcan wedi cael eu hadolygu gan yr Uwch Tîm Arwain a'u diweddarau gan y Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Chydymffurfiaeth ym mis Rhagfyr. Mae'r fersiwn ddiwygiedig wedi cael ei hystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg cyn cael ei chyflwyno i'r Cyngor.

**Nododd** y Cyngor yr adroddiad.

**14.2 Cynllun Gweithredol 2018/19 - Adroddiad Chwarter 3**

**Nododd** y Cyngor Adroddiad Chwarter 3.

**14. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dydd Iau a dydd Gwener 28 a 29 Mawrth 2019,  
Tŷ Pawb, Wrecsam

Cyfarfod y Cyngor:  
Dydd Gwener 8 Chwefror 2018:

Crynodeb o'r camau gweithredu a'r penderfyniadau

Eitem agenda	Cam gweithredu / Penderfyniad	Cyfrifoldeb
6.2	Bydd neilltuo Aelodau i'n Pwyllgorau'n cael ei ystyried yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Mawrth	PG
8.4	Gofynnir i'r Uwch Tîm Arwain ymdrechu'n galetach i fynd i'r afael â'r pryderon yn yr Arolwg Staff oedd heb eu datrys. Gofynnodd y Cyngor i'r Uwch Tîm Arwain ddod yn ôl gyda chynigion clir a datblygedig er mwyn ymateb i'r diffygion oedd yn weddill.	ST